Lifelong Learning
Dysgu Gydol Oes

# Rhaglen Dysgu Cymunedol - Dysgu Gydol Oes

Dr Sara Jones, Darlithydd Cydlynol, Dysgu Gydol Oes, Prifysgol Caerdydd

## Cyd-destun a chefndir

Mae Adran Dysgu Gydol Oes (LEARN) Prifysgol Caerdydd yn bodoli i ddarparu, cefnogi a hwyluso addysg uwch (AU) o ansawdd uchel, hygyrch, fforddiadwy a hyblyg ar gyfer ystod amrywiol o ddysgwyr sy’n oedolion a chymunedau.

Mae rhwydwaith o bartneriaethau cymunedol yn sail i'r ddarpariaeth hon, gan gynnwys Cyngor Ffoaduriaid Cymru (WRC), Canolfan Ddatblygu Cymunedol De Glan-yr-Afon (SRCDC), Canolfan Dreftadaeth Caer, Oasis a Phafiliwn Grange.

> Mae dysgu cymunedol yn rhan annatod o ethos Prifysgol Caerdydd, gan sicrhau ein bod yn agored i gymunedau lleol. Ni allai'r rhaglen hon fodoli heb nifer o sefydliadau partner. Mae gwaith cymunedol ac allgymorth yn aml yn digwydd o dan y radar, ond mae'n darparu cyfleoedd anhygoel i'r myfyrwyr rydyn ni'n eu cefnogi.

## Rhaglen gymunedol LEARN

Mae'r rhaglen hyblyg ac arloesol hon yn seiliedig ar set o ficro-gymwysterau (neu fodiwlau) 10 credyd, Lefel 3. Mae’r rhaglen wedi'i chreu ar y cyd yn llwyddiannus gyda'n cymuned, â’r nod o gefnogi cymunedau difreintiedig yng nghwintilau 1 a 2 o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC), a thrwy hynny gynorthwyo myfyrwyr i gael gwaith neu le mewn coleg neu brifysgol, pobl na fyddent wedi gallu cael mynediad at addysg uwch heb y ddarpariaeth hon, sydd am ddim.

Yn 2024-25 roedd yna 204 o bobl wedi ymrestru ar gyfer rhaglen gymunedol LEARN. Mae 16 modiwl wedi cael eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn academaidd hon, gyda rhai’n cael eu cyflwyno sawl gwaith fel y dangosir yn Nhabl 1.

> ‘Mae staff a rheolwyr wedi gwrando ar ddysgwyr … ac wedi ysgrifennu modiwlau i weddu i'w hanghenion e.e. Rhagarweiniad i Hawliau Dynol. Mae wedi bod yn bleser gweithio gyda nhw; maen nhw wedi ymrwymo'n llwyr i anghenion myfyrwyr. Maen nhw bob amser wedi mynd y filltir ychwanegol er mwyn galluogi dysgwyr i gyflawni eu nodau; maen nhw wedi meithrin perthnasoedd cadarn ar sail ymddiriedaeth ac wedi gweithredu dulliau sy'n seiliedig ar drawma.’
>
> **Prosiect Believe**

> ‘Mae tîm Addysg a Chyflogadwyedd Cyngor Ffoaduriaid Cymru wedi cydweithio â LEARN ers dros bum mlynedd. Rydym yn mynd ati i hyrwyddo cyrsiau i gleientiaid, gan eu grymuso i ddatblygu sgiliau newydd, ennill gwybodaeth a meithrin hyder nad oes gan lawer ohonynt ar y dechrau.’
>
> **Cyngor Ffoaduriaid Cymru**

Tabl 1: Rhaglen Dysgu Cymunedol 2024-25

| Modiwl | Sawl gwaith y cynhaliwyd |
|---|---|
| Saesneg Academaidd i Oedolion I (dosbarthiadau paratoi IELTS) | 1 |
| Saesneg Academaidd i Oedolion II (dosbarthiadau paratoi IELTS) | 1 |
| Saesneg Academaidd i Oedolion III (dosbarthiadau paratoi IELTS) | 1 |
| Saesneg Academaidd i Oedolion IV (dosbarthiadau paratoi IELTS) | 1 |
| Saesneg Academaidd i Oedolion V (dosbarthiadau paratoi IELTS) | 1 |
| Hanfodion Cyllid Personol | 2 |
| Rhagarweiniad i Gyfieithu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus | 4 |
| Rhagarweiniad i Gyfieithu ar gyfer Iechyd | 1 |
| Rhagarweiniad i Droseddeg | 1 |
| Chwarae Plant | 2 |
| Rhagarweiniad i Hawliau Dynol | 1 |
| Gyrfaoedd yn y Sector Cyfreithiol | 1 |
| Gyrfaoedd mewn Addysg | 1 |
| Gyrfaoedd yn y Sector Cyfreithiol | 1 |
| Gyrfaoedd mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 3 |
| Gyrfaoedd mewn Gofal Plant | 1 |
| **Cyfanswm** | **23** |

Mae 89% o fyfyrwyr 2024-25 o gymunedau cwintil 1 neu 2 MALIC; mae 85% o fyfyrwyr yn Groenddu, Asiaidd neu o gefndir ethnig lleiafrifol ac mae 49% yn perthyn i grwpiau blaenoriaeth Prifysgol Caerdydd ar gyfer ehangu cyfranogiad: pobl sydd â phrofiad o’r system ofal, gofalwyr, cyn-aelodau o’r lluoedd arfog, pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio a cheiswyr lloches. Yn ogystal, mae 51% o'r holl fyfyrwyr naill ai’n ffoaduriaid neu’n geiswyr lloches.

> ‘Rydym yn annog cleientiaid i wneud cais am gyrsiau a gweithdai i gynorthwyo â’u Saesneg, eu huchelgeisiau o ran cyflogaeth, eu hiechyd meddwl a’u hintegreiddio.’
>
> **OASIS**

> Cyrhaeddais y DU gyntaf fel ceisiwr lloches, roeddwn i'n cael trafferth gydag ymwahaniad a heriau iechyd meddwl eraill. Argymhellodd fy nghyd-letywr gwrs cymunedol i helpu ag ymgysylltu … tra roeddwn i'n gweithio ar fy iechyd meddwl. Roeddwn i'n teimlo bod y cyrsiau'n … fy ngrymuso. Rhoddon nhw'r cymorth oedd ei angen ar gyfer fy llesiant, tra'n dysgu sut i gyfrannu'n gadarnhaol at fy nghymuned ac ailadeiladu fy mywyd.
>
> **Cyn-ddysgwr cymunedol**

**Effaith**

Yn 2023-24, aeth 15 o ddysgwyr cymunedol ymlaen i ymgymryd ag astudiaethau israddedig ac ôl-raddedig Lefel 4 ym Mhrifysgol Caerdydd. Yn ogystal â chynorthwyo â'r cyfnod pontio i AU, mae cyrsiau cymunedol LEARN yn darparu cyfleoedd ar gyfer cyflogadwyedd megis hyfforddi cyfieithwyr ar gyfer cymunedau dwyieithog ac amlieithog. Mae darpariaeth a gynhyrchir ar y cyd yn grymuso cyfranogwyr, gan wella eu hyder. Mae arbenigedd, proffesiynoldeb a gwybodaeth tiwtoriaid LEARN am arferion sy'n seiliedig ar drawma yn ysbrydoli ac yn cymell myfyrwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

> Mae staff a rheolwyr wedi gwrando ar ddysgwyr … ac wedi ysgrifennu modiwlau i weddu i'w hanghenion e.e. Rhagarweiniad i Hawliau Dynol. Mae wedi bod yn bleser gweithio gyda nhw; maen nhw wedi ymrwymo'n llwyr i anghenion myfyrwyr. Maen nhw bob amser wedi mynd y filltir ychwanegol er mwyn galluogi dysgwyr i gyflawni eu nodau; maen nhw wedi meithrin perthnasoedd cadarn ar sail ymddiriedaeth ac wedi gweithredu dulliau sy'n seiliedig ar drawma.
>
> **Prosiect Believe**

> Trwy gymryd rhan yn y cyrsiau hyn, cefais bob cefnogaeth i gofrestru ar gyfer gradd Meistr. Roedd y wybodaeth a gefais o ganlyniad i ddysgu cymunedol mewn meysydd fel iechyd a gofal cymdeithasol, amddiffyn plant, seicoleg plant, ac addysg a chymdeithas yn caniatáu i mi integreiddio'n gyflymach, gan wella fy nealltwriaeth a'm hyder.
>
> **Cyn-ddysgwr cymunedol sy'n astudio ar gyfer MA mewn Gwaith Cymdeithasol**

> ‘Mae wedi caniatáu i bobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal, sydd efallai heb gael profiad cadarnhaol mewn addysg, i gael cyfle arall i symud ymlaen yn ddiweddarach mewn bywyd. Roedd rhai o'r bobl ifanc wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod … Mae'r cyfle hwn i ail-ymgysylltu … wedi bod yn eithriadol ac rydym yn gweld mwy o bobl nag erioed o’r blaen sydd â phrofiad o’r system ofal yn mynychu'r brifysgol.’
>
> **Cyngor Caerdydd**

> ‘Ysbrydolodd 'Cyfieithu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus' … ddysgwyr a Chanolfan Ddatblygu Cymunedol Glan-yr-Afon (SRCDC) i sicrhau cyllid ar gyfer datblygu prosiect cyfieithu. Ers hynny, mae cyrsiau lefel 3 wedi cael eu cyflwyno dair neu bedair gwaith y flwyddyn, gan ganiatáu i ni recriwtio 20-30 o aelodau newydd y flwyddyn a rhoi cyfleoedd i aelodau presennol ddysgu ymhellach trwy'r cwrs Cyfieithu ar gyfer Iechyd. Rydym yn hynod ddiolchgar am gefnogaeth gyson LEARN. Mae twf a datblygiad parhaus ein prosiect yn dibynnu ar y gefnogaeth honno.’
>
> **Gadewch i ni fynd ati i Gyfieithu**

Darparwyd yr astudiaeth achos hon i gynorthwyo â rhannu arfer micro-gymwysterau, fel rhan o waith y Grŵp Diddordeb Arbennig Micro-gymwysterau (MIC.SIG) a ariennir gan Medr.

Dysgwch fwy am MIC.SIG ar wefan QAA Cymru.

QAA CYMRU

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research